Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

17eg Mawrth 2022

Annwyl Gadeirydd

**P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig a P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol**

Diolch am eich gohebiaeth ddiweddar yn gofyn cwestiynau pellach yn ymwneud â'r deisebau uchod. Rwyf wedi cynnig atebion isod i'r Pwyllgor eu hystyried.

**1. A allech roi eglurhad pellach ynghylch statws yr adolygiad a gynhaliwyd yn 2017, gan gynnwys a oedd yn ystyried lleoliad Canolfan Ganser Felindre newydd a/neu'r model clinigol y tu ôl i ganolfan 'annibynnol'?**

**Mae'r Pwyllgor yn nodi eich ymateb blaenorol mai 'Adolygiad Gateway' oedd hwn a gynhaliwyd fel rhan o'r broses achos busnes. Yn y ddogfen "Why not build a new Velindre Cancer Centre on another hospital site?", a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, fe'i disgrifir fel "external review" gyda Dr Jane Barrett yn gweithredu fel "clinical lead".**

**Mewn ymateb i'n cais blaenorol am gopi, gwnaethoch ddweud eich bod wedi dod i'r casgliad na ddylid cyhoeddi'r Adolygiad. Gofynnwn i chi ystyried y cais hwn ymhellach. Os byddwch yn parhau i fod yn amharod i ddarparu copi i'r Pwyllgor, byddem yn ddiolchgar o gael amlinelliad manylach o'r materion a ystyriwyd gan yr Adolygiad, gan gynnwys a oedd wedi ystyried yn benodol y mater o leoliad Canolfan Ganser Felindre newydd ac unrhyw argymhellion a wnaeth mewn perthynas â hyn.**

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Velindre University NHS Trust is happy to receive communication in Welsh or English.

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

Ym mis Ionawr 2017, roedd Dr Jane Barrett yn aelod o'r tîm a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal Adolygiad *Gateway* o'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser.

Mae'r adolygiad *gateway* yn rhan safonol o'r broses achos busnes sy'n ofynnol gan Drysorlys y DU ar gyfer pob rhaglen waith a phrosiect seilwaith. Ei ddiben oedd rhoi sicrwydd i'r Uwch Swyddog Cyfrifol o ran cynnydd y rhaglen. Felly, ystyriwyd y model clinigol a'r prosiectau ategol fel rhan o'r adolygiad *gateway* ond ni ystyriodd yn benodol leoliad Canolfan Ganser Felindre newydd.

Ar ôl ystyried eich cais i ryddhau'r Adroddiad *Gateway*, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r rhesymau a ddarparwyd gennym dros beidio â rhyddhau, mewn gohebiaeth dyddiedig 20 Tachwedd 2020, wedi newid.

**2. Yn eich ymateb i'r Pwyllgor dyddiedig 25 Tachwedd 2020, gwnaethoch ddarparu ffigurau gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) yn dangos nifer y cleifion a drosglwyddwyd ganddynt o Ganolfan Ganser Felindre i ddarparwyr gofal lleol. A allwch chi ddarparu dadansoddiad manylach o'r categorïau (h.y. Coch, Oren a Gwyrdd) a roddwyd gan WAST i'r galwadau AS1 a ddyfynnwyd ar gyfer 2018, 2019 a 2020?**

**Mae hyn yng nghyd-destun pryderon a gafwyd gan aelodau'r Pwyllgor ei bod yn bosibl nad yw'r datganiad bod "angen i lai na thri deg o gleifion y flwyddyn, ar gyfartaledd, gael eu trosglwyddo ar frys yn ddirybudd" yn gywir nac yn ddilysadwy. Felly, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar hefyd o gael dadansoddiad ynghylch sut y cyrhaeddwyd y ffigur hwn.**

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

Pennir categoreiddio digwyddiadau (Coch, Oren a Gwyrdd) gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru gan fethodoleg a ddefnyddir gan wasanaethau ambiwlans ledled y DU i flaenoriaethu'r ymateb priodol.

Rhannwyd y cyfeiriad at 30 o alwadau y cyfeiriwch atynt mewn ymateb i ymholiad penodol gan aelod o'r cyhoedd. Rhoddwyd gwybodaeth fanylach i'r Pwyllgor i sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r trosglwyddiad o Ganolfan Ganser Felindre. Darparwyd y data hwn gan WAST ac yn ein hymateb gwreiddiol i'r Pwyllgor.

**3. Pa mor rheolaidd y bu'n ofynnol i'r Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) fynd i safle presennol Canolfan Ganser Felindre dros y tair blynedd diwethaf er mwyn asesu a throsglwyddo cleifion?**

Fel y nodwyd yn adroddiad y Nuffield Trust, mae EMRTS wedi cofnodi dau bresenoldeb i Ganolfan Ganser Felindre ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2015 a 2020.

**4. A oes cytundeb neu femorandwm cyd-ddealltwriaeth penodol rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a'r EMRTS?**

Mae'r (EMRTS) yn wasanaeth a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) i gefnogi eu hymateb brys, a ddarperir gan Ambiwlansys Brys, Cerbydau Ymateb Cyflym, Medserve a'r gwasanaethau Hanfodion. Mae'n darparu gofal critigol cyn-ysbyty a ddarperir gan Ymarferwyr Ymgynghorol a Gofal Critigol ledled Cymru.

Fe'i lansiwyd ddiwedd mis Ebrill 2015 ac mae'n bartneriaeth rhwng Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Llywodraeth Cymru a GIG Cymru.

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

Mae'r gwasanaeth EMRTS yn elfen bwysig o'r system gofal heb ei drefnu ledled Cymru. Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a holl sefydliadau GIG Cymru y gallu i gael mynediad i'r gwasanaeth EMRTS pan fo angen. Mae gan Ganolfan Ganser Felindre brotocolau clinigol ar waith ar gyfer defnydido gwasanaeth EMRTS yn ôl yr angen, fel rhan o'r system gofal heb ei drefnu ledled Cymru. Mae hwn yn wasanaeth gweithredol ar draws y system ac nid yw'n dibynnu ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth ar lefel sefydliadol.

**5. Mae'r ddogfen "Why not build a new Velindre Cancer Centre on another hospital site?" yn dweud "UHW is less than three miles away and can be reached within minutes". A allwch chi ddarparu ffigurau i gefnogi'r datganiad hwn ac, yn benodol, mewn perthynas â'r amser a gymerir fel arfer i gwblhau'r broses o drosglwyddo cleifion brys (Coch ac Oren) o'r Ganolfan Ganser Felindre presennol i Ysbyty Athrofaol Cymru?**

Darparwyd data ar nifer y trosglwyddiadau cleifion blynyddol a'r amser a gymerwyd i gwblhau hynny gan WAST, ac fe'i nodir yn adroddiad y Nuffield Trust fel isod:

"WAST also provided data on response times for 2019 and these show that response times for red calls were all under two minutes. Response times for amber patients were significantly longer, with a median of 50 minutes, but 15% were of two hours or more. This reflects common practice in which ambulance services tend to regard patients already in hospital as being in a place of relative safety."[i]

Mae safon genedlaethol Categori A Llywodraeth Cymru yn nodi amser ymateb o 8 munud ar gyfer pob galwad frys.

Mae unrhyw oedi i amseroedd ymateb yn adlewyrchu'r pwysau o fewn y system gofal heb ei drefnu ledled Cymru ac nid yw'n ymwneud yn benodol â lleoliad

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

Canolfan Ganser Felindre h.y. pan fo'r gwasanaeth ambiwlans o dan bwysau, yn anffodus efallai y bydd adegau pan fydd cleifion yn aros yn hirach nag y byddai unrhyw un yn dymuno. Mae hyn yn berthnasol i bob claf ac ysbyty ledled Cymru a'r DU.

**6. Diolch am eich ateb blaenorol mewn perthynas â'r broses ymgysylltu a gynhaliwyd gyda chlinigwyr, cleifion a phartneriaid. A allwch ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch sut y cofnodwyd unrhyw gytundeb a wnaed fel rhan o'r broses honno, ac a oes unrhyw dystiolaeth ddogfennol o heriau neu farn groes a fynegwyd gan glinigwyr?**

Trafodwyd dyfodol gwasanaethau oncoleg trydyddol anfeddygol ar gyfer de-ddwyrain Cymru yn helaeth ar draws y rhanbarth ac yng Nghanolfan Ganser Felindre yn ystod oes y prosiect.

Datblygwyd y model clinigol o ganlyniad i ymgysylltu â chleifion, clinigwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, Byrddau Iechyd, Cynghorau Iechyd Cymuned a phartneriaid yn y sector gwirfoddol. Mae llinell amser fanwl ac adroddiad cynhwysfawr sy'n amlinellu'r gweithgarwch ymgysylltu a gyflawnir ar gael ar ein gwefan.

Yn ogystal â'r ymgysylltu a amlinellwyd yn ein gohebiaeth flaenorol, comisiynwyd y Nuffield Trust gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn hydref 2020 i roi cyngor annibynnol ar y model clinigol sy'n sail i'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau canser a gynhwysir yn y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser.

Roedd y fethodoleg a gynhaliwyd gan y Nuffield Trust, a esboniwyd yn yr adroddiad, yn gadarn o ran: y cyfweliadau a gynhaliwyd gydag ystod eang o glinigwyr o bob rhan o'r rhanbarth, gan gynnwys y rhai a oedd wedi arwain ar lythyrau blaenorol o bryder;

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

y wybodaeth a ystyriwyd; a'r panel o arbenigwyr canser blaenllaw o bob cwr o'r DU a ystyriodd ac a gymeradwyodd yr adroddiad.

Yn ogystal â hyn, lansiodd yr Ymddiriedolaeth blatfform digidol dienw y gall staff ei ddefnyddio i godi pryderon. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â phryderon a materion a godwyd ac mae'n gwerthfawrogi deialog agored gyda'n partneriaid yn y Fforwm Partneriaeth Lleol a Phwyllgor Negodi Lleol Cymdeithas Feddygol Prydain.

Fel y gwyddoch, mae gohebiaeth a anfonwyd gan Gymdeithas Feddygol Prydain at Bwyllgor Deisebau'r Senedd ar 12 Chwefror 2021 yn cydnabod, yng nghyd-destun llythyr a anfonodd at yr Ymddiriedolaeth ym mis Awst 2020 ynghylch ymgysylltu â staff ar y safle arfaethedig ar gyfer y ganolfan ganser newydd, fod yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ymgynghori'n briodol ac yn ystyrlon â staff ar y materion perthnasol ac, i ddyfynnu:

*"We [BMA Cymru] remain fully satisfied that a proper and meaningful consultation with staff took place and that staff felt they were able to freely express their views and opinions."*

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol gan y Nuffield Trust ym mis Rhagfyr 2020. Mae'n dod i'r casgliad canolynol, sef, yn amodol ar yr argymhellion yn yr adroddiad sy'n cael eu cyflawni, fod y model yn cynnig gwasanaeth diogel o ansawdd uchel sy'n darparu profiad da i gleifion.

Mewn ymateb, rhyddhaodd Byrddau Iechyd Prifysgol de ddwyrain Cymru – Aneurin Bevan, Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro ddatganiad cyhoeddus ar y cyd:
*"We fully support the Nuffield Trust's comprehensive and expert report on the future of non-surgical oncology in south east Wales. We are working together to ensure that all the recommendations are taken forward. The Nuffield Trust's process allowed for*

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

*a broad range of views to be heard by interviewing a range of clinicians from Velindre and surrounding health services, patients and their representatives including hosting open access sessions for Velindre staff, reviewing papers from working groups, individual testimonies and letters from patients and staff. We are fully committed to working together to deliver excellent cancer treatment and care for patients across south east Wales in partnership with our staff, patients and healthcare colleagues."*

Roedd priodoldeb yr ymgysylltu a gynhaliwyd hefyd yn destun cais am adolygiad barnwrol yn 2021.

Yn ystod haf 2021, gwnaed cais am Adolygiad Barnwrol o benderfyniad Llywodraeth Cymru i gymeradwyo Achos Busnes Amlinellol Canolfan Ganser newydd Felindre. Enwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fel Parti â Diddordeb.

Gwnaed tair dadl graidd gan yr Hawlydd: cydymffurfio â phroses cyfraith amgylcheddol, cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phriodoldeb yr ymgysylltu a'r broses yr ymrwymodd yr Ymddiriedolaeth i gytuno ar y model clinigol.

Pennwyd y dadleuon hyn ym mhroses yr Uchel Lys, gan Syr Ross Cranston fel Barnwr yr Uchel Lys fel "na ellid dadlau" felly gwrthodwyd y cais. Yna, gwnaeth yr Hawliad gais am adnewyddu'r penderfyniad hwn a chadarnhawyd gwrthodiad y cais ymhellach gan yr Anrhydeddus Mr Ustus Eyre yng ngwrandawiad yr Uchel Lys adnewyddu ym mis Tachwedd.

Anogir staff Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i siarad yn agored. Mae unigolion yn cael eu cefnogi'n llawn i roi gwybod am bryderon a materion diogelwch; yn cael eu trin yn deg, gydag empathi ac ystyriaeth wrth godi pryderon; a bod eu pryderon yn cael eu gwrando a'u datrys, pan fyddant wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiad neu wedi codi pryder.

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

Fel sicrwydd pellach, yn Arolwg Ymgysylltu Meddygol yr Ymddiriedolaeth ym mis Mehefin 2021, cafodd cyfartaledd pob un o'r deg graddfa eu graddio o fewn yr ymgysylltiad cymharol uchaf o gymharu â'r normau allanol.

Yn ogystal, ym mis Medi 2021 rhannwyd canlyniadau Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) gan AaGIC. Ysgrifennodd AaGIC i longyfarch yr Ymddiriedolaeth am sicrhau canlyniadau mor gadarnhaol. Nodwyd bod nifer o feysydd yn 'fwy na'r tu allan', sef term a ddefnyddir gan y GMC i ddynodi canlyniadau sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd mewn meysydd penodol, ac felly'n dynodi meysydd o arfer da. Dangosodd yr adroddiad nad oedd unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion na bwlio wedi'u codi gan hyfforddeion yn arolwg 2021.

Yn dilyn yr ymatebion i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd gan y pwyllgor, isod, rydym hefyd yn darparu crynodeb o gerrig milltir allweddol y prosiect ers mis Mawrth 2021 a fydd, gobeithio, yn rhoi diweddariad defnyddiol i'r pwyllgor:

**Cerrig Milltir Prosiect Allweddol ers mis Mawrth 2021**

| | |
|---|---|
| **Mawrth 2021** | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre<br><br>Cymeradwyodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr achos busnes amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre |
| **Ebrill 2021** | **Gwaith Gwerthuso o flaen Deialog Gystadleuol yn dechrau** |
| **Haf 2021** | **Mentrau Ymgysylltu â'r Cyhoedd** |

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Velindre University NHS Trust is happy to receive communication in Welsh or English.

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

| | |
|---|---|
| | Yn ystod haf 2021, yn dilyn etholiad y Senedd a llacio rhai cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID, lansiodd VUNHST nifer o fentrau ymgysylltu i lywio datblygiad y ganolfan ganser newydd. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfod â chynrychiolwyr o'r gymuned leol, trigolion lleol a rhai cyfleoedd ymgysylltu rhithwir a fyddai'n caniatáu i gleifion, staff a'r cyhoedd yn ehangach ddylanwadu ar y prosiect.<br><br>Roedd hyn hefyd yn cynnwys dwy fenter yn ymwneud â datblygu dyluniadau cyfeirio wedi'u diweddaru – cyfeiriad at y gystadleuaeth - ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre.<br><br>Yn ogystal, ac mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a'r TechnoHub, lansiwyd Cystadleuaeth Minecraft Felindre i annog plant a phobl ifanc o ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws rhanbarth de-ddwyrain Cymru i ddylunio eu fersiwn eu hunain o Ganolfan Ganser newydd Felindre. Derbyniodd y gystadleuaeth 120 o gofrestriadau, cyflwynwyd 35 o fydoedd gan dimau ac unigolion, gyda 10 ar y rhestr fer.<br><br>Gellir dod o hyd i gyhoeddiad yr enillwyr yma ac ystyriwyd eu dyluniadau fel rhan o'r broses ddeialog gystadleuol.<br><br>Gan weithio gyda'r fenter gymdeithasol o Benrhyn Gŵyr Down to Earth, lansiwyd Sgwrs Ddigidol gennym ym mis Mehefin 2021 yn canolbwyntio ar sut y dylai iechyd a |

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Velindre University NHS Trust is happy to receive communication in Welsh or English.

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

| | |
|---|---|
| | mannau gwyrdd gydweithio i greu gwell profiad i gleifion, staff a'r cyhoedd yn y ganolfan ganser newydd. Cyflwynodd y Sgwrs Ddigidol wefan ryngweithiol bwrpasol ar gyfer y dyluniad wedi'i ddiweddaru, arolwg i gleifion, staff a'r cyhoedd yn ehangach a chymysgedd o ddigwyddiadau ymgysylltu ar-lein ac ymgysylltu â'r cyhoedd i'w cefnogi. Canfu'r arolwg fod gwella bioamrywiaeth a defnyddio deunyddiau naturiol yn flaenoriaethau allweddol i'r ymatebwyr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma |
| **Medi 2021** | **Deialog Gystadleuol yn dechrau**<br><br>Yn dilyn gwerthuso'r ymatebion i'r holiadur cyn-gymhwyso, dechreuodd y gystadleuaeth i ddarparu Canolfan Ganser newydd Felindre gyda dau gonsortia, Iechyd y Dyfodol ac Acorn, gan fynd ymlaen i gam deialog y broses gaffael.<br><br>Yn ystod y cam hwn o'r broses, mae'r ddau gonsortiwm yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (VUNHST) i ddatblygu eu cynigion ar gyfer y ganolfan newydd ymhellach, gan gynnwys cynigion dylunio posibl a'r cynigion Budd i'r Gymuned y mae'n rhaid iddynt ychwanegu gwerth cymdeithasol yn ystod ac ar ôl yr adeiladu.<br>Gallwch ddarllen mwy yma |
| **Hydref 2021** | Mae gwaith clirio tir paratoadol yn dechrau ar y safle ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma |

Pencadlys Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust Headquarters

2 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QZ

Ffôn/Phone : (029) 20196161
www.velindre-tr.wales.nhs.uk

| | |
|---|---|
| **Ionawr 2022** | Achos busnes llawn dros y gwaith galluogi ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru |
| **Ionawr 2022** | Mae gwaith clirio coed yn dechrau ar y safle. Gallwch ddarllen mwy yma |

Yn gywir,

Prof Donna Mead, OBE
Cadeirydd, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre